**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 3)**

**Y BIL HAWLIAU CYFLOGAETH**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Hawliau Cyflogaeth ("y Bil") yn Senedd y DU, Tŷ'r Cyffredin, ar 10 Hydref 2024*.* Gosodais femorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar 5 Rhagfyr a memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol yn dilyn gwelliannau gan Lywodraeth y DU ar 19 Rhagfyr 2024.

**Gwelliannau**

3. Cyflwynodd Llywodraeth y DU fwy na 280 o welliannau ar 5 Mawrth 2025 i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin, a gynhaliwyd ar 11 Mawrth a 12 Mawrth.

4. Mae'r rhan fwyaf o'r gwelliannau yn gwneud darpariaeth nad yw'n rhoi sylw i faterion datganoledig. Fodd bynnag, mae gwelliannau Llywodraeth y DU NC37, Gov 98-150, Gov 153-161, Gov 227, Gov 229-235, Gov 151, Gov 152 a Gov 250 yn rhoi sylw i faterion datganoledig, fel y manylir ym mharagraff 19 isod.

5. Mae'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, i'w weld yn: https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/59-01/0011/240011.pdf. Mae'r Bil, fel y'i diwygiwyd yn dilyn y Cyfnod Adrodd ac fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi, i'w weld yn: https://bills.parliament.uk/publications/59737/documents/6209.

**Amcanion Polisi**

6. Mae amcanion polisi Llywodraeth y DU wedi'u nodi mewn trosolwg cyhoeddedig o'r Bil. Yn gryno, y rhain yw:

   - Mynd i'r afael â hyblygrwydd unochrog, gan sicrhau bod swyddi'n cynnig sicrwydd sylfaenol i weithwyr.

   - Cefnogi hawliau sy'n ystyriol o deuluoedd drwy wella hyblygrwydd a sicrwydd.

   - Blaenoriaethu tegwch, cydraddoldeb a llesiant gweithwyr.

   - Sicrhau bod gweithwyr yn cael cyflog teg am ddiwrnod teg o waith.

- Moderneiddio deddfwriaeth sy’n ymwneud â’r undebau llafur, gan roi mwy o ryddid i undebau llafur drefnu, cynrychioli, a negodi ar ran eu haelodau.

- Gwella’r dull o orfodi hawliau cyflogaeth.

**Crynodeb o’r Bil**

7. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes a Masnach a'i fwriad yw cyflawni llawer o'r diwygiadau a nodir yng nghynllun 'Plan to Make Work Pay' Llywodraeth y DU.

8. Mae prif ddarpariaethau’r Bil yn ymdrin â diweddaru a gwella hawliau cyflogaeth presennol a gwneud darpariaeth ar gyfer hawliau newydd; gwneud darpariaeth ynghylch trafod â chyrff mewn sectorau penodol; a diwygio agweddau penodol ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag undebau llafur a chysylltiadau diwydiannol. Yn ogystal â hynny, mae’r Bil yn creu mecanweithiau newydd ar gyfer gorfodi cyfraith cyflogaeth.

9. Mae’r Bil yn gwneud darpariaeth yn y meysydd allweddol canlynol:

   - Mae Rhan 1 yn ymdrin â hawliau cyflogaeth, gan gynnwys diwygio hawliau cyflogaeth mewn perthynas ag oriau wedi’u gwarantu, gweithio hyblyg, tâl salwch statudol, arian cildwrn ac arian rhodd, hawl i absenoldeb, gwarchodaeth rhag aflonyddu, a diswyddo.

   - Mae Rhan 2 yn ymdrin â materion eraill sy’n ymwneud â chyflogaeth, gan gynnwys y weithdrefn ar gyfer trin diswyddiadau, contractau allanoli yn y sector cyhoeddus, a dyletswyddau cyflogwyr yn ymwneud â chydraddoldeb.

   - Mae Rhan 3 yn ymdrin â chyflogau ac amodau mewn sectorau penodol, gan gynnwys cyflogau ac amodau staff cymorth mewn ysgolion yn Lloegr, a sefydlu’r cyrff negodi gofal cymdeithasol ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban.

   - Mae Rhan 4 yn ymdrin ag undebau llafur a gweithredu diwydiannol, gan gynnwys hawl i gael datganiad am hawliau mewn perthynas ag undebau llafur, hawl i undebau llafur i gael mynediad at weithleoedd, diwygiadau i’r gweithdrefnau ar gyfer cydnabod undebau llafur, cyllid undebau llafur, a chyfleusterau a ddarperir i gynrychiolwyr ac aelodau undebau llafur, cosbrestrau, gweithredu diwydiannol, a phleidleisiau, darparu gwybodaeth i gyflogwyr, picedu a gwarchodaeth rhag gweithredu diwydiannol, diddymu darpariaeth ynghylch streiciau a lefelau gwasanaeth gofynnol, a swyddogaethau’r Swyddog Ardystio (a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992).

- Mae Rhan 5 yn ymdrin â gorfodi deddfwriaeth y farchnad lafur, ac yn rhoi i’r Ysgrifennydd Gwladol y swyddogaeth o orfodi deddfwriaeth y farchnad lafur. Penodir swyddogion gorfodi at y diben hwn.

- Mae Rhan 6 yn gwneud darpariaeth gyffredinol mewn perthynas â’r pŵer i wneud diwygiadau canlyniadol, pŵer i wneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed, rheoliadau, darpariaeth ariannol, rhychwant, cychwyn ac enw byr.

10. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi’r Bil a’r cynllun ‘Plan to Make Work Pay’ ehangach. Cyn cyflwyno’r Bil ac wedi hynny, bu trafod rheolaidd ac adeiladol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ar lefel Gweinidogion ac ar lefel swyddogion.

11. Gallai’r Bil effeithio ar weithwyr mewn gwasanaethau cyhoeddus datganoledig. Fodd bynnag, mae’r Bil yn gwneud darpariaeth yn bennaf ynghylch materion a gedwir yn ôl. Prif ffocws y Bil yw hawliau cyflogaeth a chysylltiadau diwydiannol. Mae hyn yn dod o fewn mater a gedwir yn ôl, sef Cyflogaeth a Chysylltiadau Diwydiannol. Yn ogystal, mae llawer o'r cymalau yn gymwys mewn perthynas â Lloegr yn unig.

12. Fel y nodir isod, mae darpariaethau penodol yn y Bil yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru o ran materion datganoledig. Oherwydd hynny, mae’n ofynnol cael cydsyniad y Senedd mewn cysylltiad â’r darpariaethau hynny.

**Y diweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r ail memorandwm cydsyniad deddfwriaethol**

13. Yn dilyn cyfarfodydd gyda'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Hawliau Cyflogaeth, Cystadleuaeth a Marchnadoedd, Justin Madders AS, a'r Gweinidog Gwladol dros Ofal, Stephen Kinnock AS, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gwelliannau i'r Bil Hawliau Cyflogaeth sy'n galluogi creu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru.

14. Pwrpas Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru fyddai datblygu a chytuno ar Gytundebau Cyflog Teg mewn gofal cymdeithasol a fyddai'n llywio telerau ac amodau gweithwyr yn y sector gofal cymdeithasol.

15. Yn wahanol i'r Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Oedolion arfaethedig ar gyfer Lloegr, byddai Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru yn gallu delio â thâl, telerau ac amodau ac unrhyw fater penodol arall sy'n ymwneud â chyflogi gweithwyr gofal cymdeithasol oedolion a phlant. Mae'r gwahaniaeth hwn mewn dull gweithredu yn ystyried y ffaith, yn wahanol i Loegr, bod gofal cymdeithasol oedolion a phlant wedi'u hintegreiddio'n sefydliadol yng Nghymru.

**Darpariaethau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'r Bil i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

16. Rwyf yn credu bod angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â'r cymalau a nodir isod gan eu bod yn rhoi sylw i faterion datganoledig.

- **NC37** (pŵer i sefydlu corff negodi gofal cymdeithasol)

Byddai'r cymal newydd hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban, gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol, i sefydlu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru ac ar gyfer yr Alban yn y drefn honno. O ganlyniad, mae Pennod 2 o Ran 3 wedi'i diwygio er mwyn galluogi i bwerau gwneud rheoliadau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Bennod 2 fod yn arferadwy hefyd gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban. Ni chaniateir arfer y pwerau hyn heb gytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol.

- **Gov 98-150 a Gov 153-161** (newidiadau i ddarpariaethau presennol cyrff negodi gofal cymdeithasol)

Mae'r diwygiadau hyn yn gwneud newidiadau yn bennaf i addasu'r cymalau presennol sy'n llywodraethu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Oedolion i Loegr fel eu bod yn gweithredu'n effeithiol mewn perthynas â chyrff negodi gofal cymdeithasol i Gymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r gwelliannau hyn hefyd yn gwneud mân newidiadau drafftio. Mae **Gov 108** yn sicrhau bod rhaid i'r materion o fewn cylch gorchwyl pob corff negodi ymwneud â gweithwyr gofal cymdeithasol a gyflogir yn y ddarpariaeth gofal cymdeithasol, neu mewn cysylltiad â hi, yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban fel y bo'n berthnasol. Effaith **Gov 110** yw y gall corff negodi a sefydlwyd ar gyfer Cymru neu'r Alban ystyried materion sy'n ymwneud â phobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol i oedolion neu blant.

- **Gov 227 a Gov 229-235** (gweithdrefn ar gyfer rheoliadau a rhychwant)

Mae'r gwelliannau hyn naill ai'n ganlyniadol i NC37 neu'n fân newidiadau drafftio.

- **Gov 151, Gov 152 a Gov 250** (gorfodi).

Mae Gov 151 yn ymwneud â'r pŵer i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gadw cofnodion sy'n berthnasol i waith y cyrff negodi gofal cymdeithasol.

Mae Gov 152 yn dileu cymal 42 (nad oes ei angen mwyach oherwydd y ddarpariaeth newydd a fewnosodwyd gan Gov 250).

Effaith Gov 250 yw y bydd pwerau gorfodi'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ran 5 o'r Bil yn arferadwy mewn perthynas â hawliau gweithwyr gofal cymdeithasol i'w talu yn unol â chytundebau corff negodi neu reoliadau a

wneir gan yr awdurdod priodol (h.y. Gweinidogion Cymru neu Weinidogion yr Alban).

### Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad

17. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno ar yr angen am gydsyniad deddfwriaethol ar y gwelliannau sy'n ymwneud â Chorff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru. Ysgrifennodd yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Hawliau Cyflogaeth, Cystadleuaeth a Marchnadoedd, Justin Madders AS, ataf ar 28 Chwefror i ofyn am osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol.

### Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Hawliau Cyflogaeth

18. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi’r Bil Hawliau Cyflogaeth. Bydd y darpariaethau sy'n ymwneud â Chorff Negodi Gofal Cymdeithasol yng Nghymru yn ein galluogi i ddefnyddio'r fframwaith a ddarperir gan y Bil Hawliau Cyflogaeth mewn modd sy'n cyd-fynd â'n hagenda polisi gofal cymdeithasol, ein model comisiynu a'n trefniadau cyllido. Rydym yn cydnabod y potensial ar gyfer Cytundebau Cyflog Teg i ategu'r mesurau rydym eisoes wedi'u gweithredu yng Nghymru, megis darparu'r Cyflog Byw Gwirioneddol mewn gofal cymdeithasol a gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol gyda chyflogwyr ac undebau llafur i ymgorffori arferion gwaith teg.

### Goblygiadau ariannol

19. Nid oes goblygiadau ariannol uniongyrchol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried goblygiadau ariannol sefydlu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru cyn ceisio defnyddio'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru i sefydlu corff o'r fath.

### Casgliad

20. Rwyf o'r farn bod y gofyniad i gaffael cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i arfer swyddogaeth gwneud rheoliadau Gweinidogion Cymru yng nghymal NC37 yn ddiangen ac rwyf wedi rhoi gwybod i Lywodraeth y DU am y safbwynt hwnnw. Serch hynny, mae cydnabod yr heriau sylweddol y mae'r sector gofal cymdeithasol yn eu hwynebu o ran cyflog teg, sydd yn ei dro yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau hanfodol i'n pobl fwyaf agored i niwed, alinio pwerau gorfodi a galluogi dull cydgysylltiedig o ddatblygu cyrff negodi gofal cymdeithasol a Chytundebau Cyflog Teg yn y sector hwn yn hanfodol. Mewn cydnabyddiaeth o'r ffactorau hyn, yn ogystal â galluogi'r darpariaethau hyn i gael eu gweithredu cyn gynted â phosibl, mae'n briodol, yn fy marn i, i ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Lywodraeth y DU. Mae'r Bil yn gyson â ffocws Llywodraeth Cymru ar waith teg. Felly, rwy’n argymell y dylai'r Senedd gefnogi’r cynigion a rhoi ei chydsyniad.

**Jack Sargeant AS**
**Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol**
**1 Ebrill 2025**